

MORRIS, DAVID ('Eiddil Gwent'; fl. 1798-1878), bardd a llenor

Enw: David Morris
Ffugenw: Eiddil Gwent
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd a llenor
Maes gweithgaredd: Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth
Awdur: Thomas Isfryn Jones

Fe'i prentisiwyd yn grydd, a threuliodd y rhan helaethaf o'i fywyd yn Nhrefgar. Cyfansoddodd lawer o farddoniaeth a rhyddiaith, ac yr oedd yn un o aelodau blaenllaw Cymreigyddion y Fenni. Bu canu mawr ar rai o'i faledi, a hyd heddiw y mae bri ar ei gân, 'Can mlynedd i nawr.' Yn 1862 gwobrwywyd ef yn eisteddfod Cymmrodorion Tredegar am draethawd ar 'Hanes Tredegar' a gyhoeddwyd yn 1868. Treuliodd ei flynyddoedd olaf yn nhloty Tredegar, a thra bu yno gyrrai **arglwyddes Llanover** bunt yn galennig iddo bob Calan. Yr oedd heibio'r 80 mlwydd oed pan fu farw.

Awdur

Thomas Isfryn Jones

Ffynonellau

William Williams, *CŴn, LIŴn*, a *Gwerin sef cynhyrchion y diweddar Myfyr Wyn* (Aberdŵr 1908)

Morris, *Hanes Tredegar o ddechreuad y gwaith haiam hyd yr amser presenol*, 1868

Powell, *History of Tredegar subject of competition at Tredegar 'Chair Eisteddfod', held February the 25th, 1884* (Casnewydd 1902), 1902

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q28360895

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

PDF Argraffu Cyfeirnod

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

frannu

Arddull APA

x

Jones, T. I., (1953). MORRIS, DAVID ('Eiddil Gwent'; fl. 1798-1878), bardd a llenor. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 11 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-MORR-DAV-1798>

Clipwrdd

LGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Ysgrifeddi
Llywodraeth Cymru
Copied by
Welsh Government